# Trefniadau Parhad Busnes

1 Medi 2017

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 4 Awst, pan wnaethoch ofyn am y canlynol:

> *O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, hoffwn weld pa asesiadau a wnaed o'r lleoliadau amgen a ystyriwyd ar gyfer lle gellir sefydlu'r Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd y pwyllgorau yn gyflym pe na fyddai'r Senedd a Thŷ Hywel ar gael.*
>
> *Hoffwn weld dogfennau sy'n dangos pa leoliadau a nodwyd, pa rai ymwelwyd â hwy, a pha asesiadau a wnaed o bob un.*

Gallaf gadarnhau bod gennym y wybodaeth y gofynnir amdani. Fodd bynnag, ni fyddwn yn datgelu'r wybodaeth oherwydd ei bod wedi'i heithrio o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae nifer o eithriadau yn berthnasol sydd, yn gryno, fel a ganlyn:

- adran 24 – mae'r wybodaeth yn cynnwys gwybodaeth a allai beryglu diogelwch cenedlaethol.
- adran 38 – mae'r wybodaeth yn cynnwys gwybodaeth a allai beryglu iechyd a diogelwch unrhyw unigolyn.

Mae manylion llawnach am yr eithriadau sydd wedi eu cymhwyso, a'r rhesymau dros eu cymhwyso, i'w gweld yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Ar ôl ystyried eich cais am wybodaeth yn ofalus, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") o'r farn bod y wybodaeth hon wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu o dan adran 24(1) a 31(1)(b) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Diben yr eithriad hwn yw atal datgelu gwybodaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer gwarchod diogelwch cenedlaethol a diogelwch unrhyw unigolyn. Mae'r rhesymau dros arfer y ddau eithriad i'w gweld yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA
Ffôn/Tel: 0300 200 6544

E-bost/Email: MynediadAtWybodaeth@Cynulliad.cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Atodiad**

**Adran 24 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth**

Mae adran 24(1) o'r Ddeddf yn darparu bod: -

- *Gwybodaeth nad yw'n dod o fewn adran 23(1) yn wybodaeth eithriedig os yw eithriad o adran 1 (1) (b) yn ofynnol er mwyn sicrhau diogelwch cenedlaethol.*

Ystyriwn ei bod yn angenrheidiol i atal y wybodaeth ynghylch y lleoliadau a nodwyd, yr ymwelwyd â nhw ac a aseswyd fel rhan o'r prosiect hwn er mwyn atal niwed, neu risg o niwed, i Aelodau'r Cynulliad, Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad, staff Comisiwn y Cynulliad, ac ymwelwyr ag ystâd y Cynulliad Cenedlaethol, yn ogystal â seilwaith ac adeiladau'r Cynulliad ei hun. Mae'r wybodaeth sy'n berthnasol i'r cais yn ymwneud yn uniongyrchol â'r trefniadau parhad busnes ar gyfer diogelwch ystâd y Cynulliad. Y risg sydd ynghlwm wrth ddatgelu'r wybodaeth hon yw y byddai tebygolrwydd gwirioneddol y byddai'n niweidiol i effeithiolrwydd a dibynadwyedd y trefniadau hynny. Gallai datgelu ein cynlluniau parhad busnes, yn benodol y prosiect lleoliadau amgen, roi gwybodaeth i bartïon allanol ynghylch sut i darfu ar ein safleoedd a'n gwasanaethau.

Rydym hefyd o dan rwymedigaeth i sicrhau diogelwch lleoliadau amgen yr ydym wedi dod i drefniant â hwy. Maent wedi rhoi gwybodaeth sensitif a phwysig i ni i'n galluogi i asesu'r lleoliadau yn erbyn ein gofynion y penderfynwyd arnynt ymlaen llaw, ac nid oeddent yn disgwyl y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei datgelu'n gyhoeddus.

Mae'r eithriad hwn yn eithriad amodol, ac o'r herwydd, mae'n rhaid i'r budd i'r cyhoedd o gynnal yr eithriad gael ei ystyried. Y budd i'r cyhoedd a fyddai ynghlwm wrth ddatgelu'r wybodaeth yw bod gan y cyhoedd hawl i wybod, a chael eu sicrhau, bod trefniadau digonol ar gyfer parhad busnes ar waith yn y Cynulliad. Yn ein barn ni, ystyrir fodd bynnag, yn ei hanfod, bod rhyddhau'r wybodaeth hon yn debygol o niweidio dibynadwyedd ac effeithiolrwydd trefniadau diogelwch y Cynulliad ac felly, yn yr achos hwn, mae'r budd i'r cyhoedd mewn dal yr wybodaeth yn drech na'r budd i'r cyhoedd mewn datgelu'r wybodaeth.

Ar hyn o bryd mae lefel y bygythiad gan derfysgaeth ryngwladol yn y DU wedi'i asesu fel bygythiad difrifol, fel y nodir yn:
https://www.mi5.gov.uk/threat-levels

Mae achosion yn y DU ac Ewrop dros y misoedd diwethaf wedi cael eu hystyried wrth bwyso a mesur y budd i'r cyhoedd. Mae gan y Cynulliad record gref o fod yn agored ac atebol ac mae gwybodaeth o'r natur y gofynnir amdani wedi'i rhyddhau i'r cyhoedd yn y gorffennol. O ystyried yr achosion diweddar, fodd bynnag, ac o ystyried yr ymarferion a'r mesurau diogelwch sy'n cael eu mabwysiadu yn rhai o'n prif ddinasoedd, mae'r ddadl dros beidio â datgelu'r wybodaeth er budd y cyhoedd, yn ein barn ni, wedi'i chryfhau ymhellach.

**Adran 38 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth**

Yn ogystal â'r uchod, mae'r wybodaeth y gofynnir amdani yn cael ei dal yn ôl o dan Adran 38(1)(b) o'r Ddeddf, sy'n darparu:

- *Bod gwybodaeth yn wybodaeth eithriedig os byddai ei datgelu o dan y Ddeddf hon yn peryglu diogelwch unrhyw unigolyn neu y byddai'n debygol o wneud hynny.*

Mae'r wybodaeth y gofynnir amdani yn cynnwys manylion am broses y Cynulliad ar gyfer nodi ac asesu lleoliad amgen os na fydd yr ystâd ym Mae Caerdydd ar gael. Nid yw'n debygol bod gwybodaeth o'r fath, ynddi'i hun, yn peryglu iechyd a diogelwch unrhyw unigolyn. Fodd bynnag, yn nwylo troseddwyr, eithafwyr a/neu derfysgwyr, mae'n debygol o gael ei defnyddio i weld ble mae'r gwendidau yn ystâd y Cynulliad a pheryglu diogelwch unigolion yn y lleoliadau amgen.

Gan fod Adran 38 yn eithriad amodol, mae'n ofynnol i ni gynnal prawf budd i'r cyhoedd, fel uchod.

Ceir budd i'r cyhoedd wrth ddarparu gwybodaeth i sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn atebol. Gall datgelu, wrth gwrs, godi ymwybyddiaeth o faterion cyfredol a chodi safon y drafodaeth gyhoeddus. Mae'r Cynulliad yn eiriolwr dros dryloywder ac, yn wir, mae'n bosibl bod gwybodaeth o'r natur y gofynnir amdani yn awr wedi bod ar gael i'r cyhoedd yn flaenorol, fel y nodir uchod.

Rydym unwaith eto'n cyfeirio at achosion yn y DU ac Ewrop dros y misoedd diwethaf. Mae materion o'r fath, wrth gwrs, wedi rhoi achos i'r Cynulliad Cenedlaethol ail-werthuso'r sefyllfa o ran sut y mae gwybodaeth benodol yn cael ei thrin ac a ddylai'r wybodaeth honno gael ei lledaenu i'r cyhoedd.

Mae'r Cynulliad o'r farn y byddai datgelu'r wybodaeth y gofynnir amdani yn debygol o beryglu diogelwch yr unigolion hynny sy'n cymryd rhan yn nhrafodion y Cynulliad a'r sawl sy'n gweithio ar ystâd y Cynulliad neu'n

ymweld â’i ystâd, yn enwedig y staff hynny sy'n cefnogi trafodion y Cyfarfod Llawn a'r Pwyllgorau.

Hefyd, mae unrhyw fudd i'r cyhoedd mewn datgelu gwybodaeth tu hwnt i'r hyn a ddatgelwyd eisoes fel rhan o'r ymateb hwn yn cael ei drechu gan y budd i'r cyhoedd mewn amddiffyn unigolion rhag bygythiadau i'w hiechyd a'u diogelwch meddyliol a chorfforol. Yn ychwanegol, mae budd cryf a phenodol i'r cyhoedd na ddylai Aelodau’r Cynulliad gael eu hatal neu’u rhwystro rhag ymgymryd â'u gwaith pwysig, sef cynrychioli eu hetholwyr, deddfu ar gyfer Cymru a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Yn ein barn ni, mae'n rhaid osgoi'r risg o amharu ar y nodwedd bwysig hon o ddemocratiaeth yng Nghymru.

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno’n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i’r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF